
Dechrau'r Ysgol yng Nghymru

Mae taith eich plentyn i'r ysgol yn dechrau gartref



Rydym yn deall fod pob plentyn yn datblygu ar ei gyflymder/ei chyflymder ei hun, a'n bod ni i gyd yn dysgu o'n genedigaeth. Pan ddaw'n amser dechrau'r ysgol, bydd angen mwy o gymorth ar rai plant nag eraill.

Mae sgiliau allweddol* y mae ysgolion yn disgwyl i blant ddechrau eu dysgu cyn eu diwrnod cyntaf. Trwy ymarfer y rhain byddwch yn sicrhau bod taith eich plentyn i'r Dosbarth Derbyn mor gadarnhaol â phosibl.

Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud gartref i adeiladu hyder ac annibyniaeth eich plentyn, a'i helpu i deimlo'n barod yn emosiynol ac yn ymarferol i ddechrau'r ysgol.

* Rydym yn galw'r ddogfen hon yn ddiffiniad 'Dechrau'r Dosbarth Derbyn'. Mae rhai pobl/sefydliadau yn cyfeirio at hyn fel 'bod yn barod ar gyfer yr ysgol'.

Sut allaf i helpu fy mhlentyn i baratoi?

- Bydd gan eich plentyn nifer o weithgareddau ac arferion newydd i ddod i arfer â nhw pan fydd yn dechrau yn yr ysgol. Bydd angen iddo/iddi wneud rhai pethau'n fwy annibynnol nag o'r blaen.
- Mae ymchwil yn dangos mai perthynas plentyn â'i reini yw'r ffactor pwysicaf yn ei ddatblygiad, ac mae llawer y gallwch chi ei wneud gartref.
- Pan fydd eich plentyn gartref gyda chi neu ofalwr arall, gallwch chi ymarfer fel teulu gyda gweithgareddau hwyliog (rydym wedi cynnwys dolenni ar ddiwedd yr adnodd hwn).
- Mae rhai o'r sgiliau hyn yn cymryd amser i'w meistroli, felly mae'n beth da i'w cyflwyno nhw'n raddol yn rhan o'ch arferion dyddiol.



Dysgwch ragor

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i helpu eich plentyn i baratoi ar gyfer y dosbarth derbyn, ac i gael gwybodaeth am gynorthwyo plant sydd ag anghenion ychwanegol, sganiwch y cod QR neu ewch i **https://startingschool.wales**